**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 813 (Cy.98)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn.)*

O dan adran 27(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (1998 p.38), mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i drosglwyddo iddo'i hun drwy orchymyn unrhyw un o swyddogaethau awdurdod iechyd Cymreig neu'r cyfan ohonynt. O dan adran 27(5)(a) o Ddeddf 1998, pan fo gorchymyn yn darparu ar gyfer trosglwyddo holl swyddogaethau awdurdod iechyd ar gyfer yr ardal gyfan y mae'r awdurdod hwnnw yn gweithredu mewn perthynas â hi, gall y Cynulliad ddiddymu'r awdurdod hwnnw.

O dan adran 27(8) o Ddeddf 1998, caiff y Cynulliad wneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo staff, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau awdurdod iechyd Cymreig.

Roedd y ddogfen strategaeth "*Gwella Iechyd yng Nghymru*" a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fis Chwefror 2001 yn dynodi'r bwriad i ddiddymu'r pum awdurdod iechyd a oedd eisoes yn bodoli yng Nghymru o 31 Mawrth 2003 ymlaen, ac i ddirprwyo eu swyddogaethau i Fyrddau Iechyd Lleol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn trosglwyddo holl swyddogaethau'r pum awdurdod iechyd Cymreig i'r Cynulliad, ac yn diddymu'r pum awdurdod. Mae hefyd yn effeithio ar drosglwyddo staff penodol a gyflogir gan yr awdurdodau iechyd naill ai'n uniongyrchol i'r Cynulliad, neu o dan y Cynllun Cyflogaeth Estynedig

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 813 (W.98)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Health Authorities (Transfer of Functions, Staff, Property, Rights and Liabilities and Abolition) (Wales) Order 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Under section 27(1) of the Government of Wales Act 1998 (1998 c.38), the National Assembly for Wales has the power to transfer to itself by order any or all of the functions of a Welsh health authority. Under section 27(5)(a) of the 1998 Act, where an order provides for the transfer of all of the functions of a health authority with respect to the whole of the area for which that authority acts, the Assembly may abolish that authority.

Under section 27(8) of the 1998 Act, the Assembly may make provision for the transfer of staff, property, rights and liabilities of a Welsh health authority.

The strategy document "*Improving Health in Wales*" published by the National Assembly for Wales in February 2001 signalled the intention to abolish the five existing health authorities in Wales with effect from 31st March 2003, and to delegate their functions to Local Health Boards ("LHBs").

This Order transfers all the functions of the five Welsh health authorities to the Assembly, and abolishes all five authorities. It also effects the transfer of certain of the staff employed by health authorities either to the Assembly directly, or under the Extended Employment Scheme ("EES") to the Powys Local Health Board.

("EES") i Fwrdd Iechyd Lleol Powys. Yn ystod y cyfnod o 12 mis ar ôl y dyddiad trosglwyddo, gellir trosglwyddo'r staff hynny a drosglwyddodd i Fwrdd Iechyd Lleol Powys o dan y Cynllun Cyflogaeth Estynedig ond na chawsant gyflogaeth arall, i swyddi mewn Bwrdd Iechyd Lleol neu yn y Cynulliad os cynigir swydd iddynt ac maent yn ei derbyn.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw eiddo, hawliau a rhwymedigaethau nas trosglwyddwyd yn benodol i Fyrddau Iechyd Lleol.

Bydd y swyddogaethau a drosglwyddir i'r Cynulliad o dan y Gorchymyn hwn (yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau) yn cael eu dirprwyo i Fyrddau Iechyd Lleol gan reoliadau a wnaed o dan adran 16BB o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (1977 p.49), fel y cafodd ei mewnosod gan adran 6 o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynolion Gofal Iechyd 2002 (2002 p.17). Am gwmpas y swyddogaethau a ddirprwywyd i Fyrddau Iechyd Lleol, gweler Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/150, Cy.20).

Caiff Byrddau Iechyd Lleol eu sefydlu o dan orchymyn a wneir o dan adran 16BA o Ddeddf 1977, fel y'i mewnosodwyd gan adran 6 o Ddeddf 2002 (gweler Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/148, Cy.18).

During the period of 12 months after the transfer date, those staff who have transferred to the Powys LHB under the EES but have not found other employment, may be transferred to posts in a Local Health Board or the Assembly if they are offered and accept a post.

The Order also makes provision for the transfer to the National Assembly for Wales of any property, rights and liabilities not specifically transferred to Local Health Boards.

The functions transferred to the Assembly under this Order will (subject to any exceptions) be delegated to LHBs by regulations made under section 16BB of the National Health Service Act 1977 (1977 c.49), as inserted by section 6 of the National Health Service Reform and Healthcare Professions Act 2002 (2002 c.17). For the extent of functions delegated to LHBs, see the Local Health Boards (Functions) (Wales) Regulations 2003 (S.I. 2003/150, W.20).

LHBs will be established by order made under section 16BA of the 1977 Act, as inserted by section 6 of the 2002 Act (see the Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003 (S.I. 2003/148, W.18).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 813 (Cy.98)

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *19 Mawrth 2003* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 27(1), (3), (5)(a), (8), (9) a 154(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol -

**Teitl, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003 a daw i rym ar 1 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Dehongli**

**2**.Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "cyflogai Cynllun Cyflogaeth Estynedig" ("*EES employee*") yw person y cafodd ei gontract cyflogaeth ei drosglwyddo i Fwrdd Iechyd Lleol Powys(**b**) o dan y Cynllun Cyflogaeth Estynedig yn unol ag erthygl 5;

ystyr "Cynllun Cyflogaeth Estynedig" ("*Extended Employment Scheme*") yw cynllun sy'n darparu i Fwrdd Iechyd Lleol Powys gyflogi, am gyfnod heb fod yn fwy na 12 mis gan ddechrau ar y dyddiad trosglwyddo, bersonau y mae eu contractau cyflogaeth yn

(a) 1998 p.38.

(b) Sefydlir Bwrdd Iechyd Lleol Powys drwy orchymyn o dan adran 16BA o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (p.49) - *gweler* Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu)(Cymru) 2003 (O.S. 2003/148, Cy.18).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 813 (W.98)

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Health Authorities (Transfer of Functions, Staff, Property, Rights and Liabilities and Abolition) (Wales) Order 2003

| | |
|---|---|
| *Made* | *19th March 2003* |
| *Coming into force* | *1st April 2003* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 27(1), (3), (5)(a), (8), (9) and 154(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**), makes the following Order -

**Title, commencement and application**

**1.**-(1) This Order may be cited as the Health Authorities (Transfer of Functions, Staff, Property, Rights and Liabilities and Abolition) (Wales) Order 2003 and shall come into force on 1st April 2003.

(2) This Order applies to Wales only.

**Interpretation**

**2.** In this Order -

"EES employee" means a person whose contract of employment has been transferred to Powys Local Health Board(**b**) under the Extended Employment Scheme pursuant to article 5;

"Extended Employment Scheme" means a scheme which provides for the employment by the Powys Local Health Board, for a period not exceeding 12 months commencing on the transfer date, of persons whose contracts of employment are transferred to the Powys

(a) 1998 c.38.

(b) The Powys Local Health Board is established by order under section 16BA of the National Health Service Act 1977 (c.49) - *see* the Local Health Boards (Establishment)(Wales) Order 2003 (S.I. 2003/148, W.18).

cael eu trosglwyddo i Fwrdd Iechyd Lleol Powys yn unol ag erthygl 5;

ystyr "cyflogai perthnasol" ("*relevant employee*") yw person -

(a) y mae ei gontract cyflogaeth gydag awdurdod iechyd Cymreig heb gael ei derfynu cyn y dyddiad trosglwyddo (boed wrth i rybudd ddod i ben, treigl amser neu fel arall); a

(b) a gafodd gynnig cyflogaeth ac a'i derbyniodd cyn y dyddiad trosglwyddo gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "cyflogai gweddilliol" ("*residual employee*") yw person -

(a) y mae ei gontract cyflogaeth gydag awdurdod iechyd Cymreig heb gael ei derfynu cyn y dyddiad trosglwyddo (boed wrth i rybudd ddod i ben, treigl amser neu fel arall); a

(b) na chafodd gynnig cyflogaeth neu na dderbyniodd gyflogaeth cyn y dyddiad trosglwyddo gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru neu unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol(**a**) (heblaw gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys o dan y Cynllun Cyflogaeth Estynedig).

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*transfer date*") yw 1 Ebrill 2003; ac

ystyr "awdurdod iechyd Cymreig" ("*Welsh health authority*") yw awdurdod iechyd a sefydlwyd gan Orchymyn Sefydlu yr Awdurdodau Iechyd (Cymru) 1996(**b**), ac a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Trosglwyddo swyddogaethau Awdurdodau Iechyd Cymreig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

**3.** Gan fod yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo, trosglwyddir holl swyddogaethau pob un o'r awdurdodau iechyd Cymreig mewn perthynas â'r ardal gyfan y mae pob un o'r awdurdodau yn gweithredu ar ei chyfer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Trosglwyddo cyflogeion perthnasol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

**4**. Gan fod yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo, caiff contract cyflogaeth rhwng cyflogai perthnasol ac awdurdod iechyd Cymreig ei drin fel pe bai wedi cael ei wneud yn wreiddiol rhwng y cyflogai perthnasol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

(a) Sefydlir Byrddau Iechyd Lleol drwy orchymyn o dan adran 16BA o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (p.49) - *gweler* Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/148, Cy.18).

(b) O.S. 1996 Rhif 146.

Local Health Board pursuant to article 5;

"relevant employee" ("*cyflogai perthnasol*") means a person -

(a) whose contract of employment with a Welsh health authority has not terminated before the transfer date (whether by expiry of notice, effluxion of time or otherwise); and

(b) who has been offered and has accepted before the transfer date employment with the National Assembly for Wales;

"residual employee" ("*cyflogai gweddilliol*") means a person -

(a) whose contract of employment with a Welsh health authority has not terminated before the transfer date (whether by expiry of notice, effluxion of time or otherwise); and

(b) who has not been offered or has not accepted before the transfer date employment with the National Assembly for Wales or any Local Health Board(**a**) (other than the Powys Local Health Board under the Extended Employment Scheme).

"transfer date" ("*y dyddiad trosglwyddo*") means 1st April 2003; and

"Welsh health authority" ("*awdurdod iechyd Cymreig*") means a health authority established by the Health Authorities (Wales) Establishment Order 1996(**b**), and which is listed in the Schedule to this Order

**Transfer of functions of Welsh health authorities to the National Assembly for Wales**

**3**. With effect from the transfer date, all the functions of each Welsh health authority with respect to the whole of the area for which each such authority acts are transferred to the National Assembly for Wales.

**Transfer of relevant employees to the National Assembly for Wales**

**4.** With effect from the transfer date, a contract of employment between a relevant employee and a Welsh health authority shall be treated as if it had originally been made between the relevant employee and the National Assembly for Wales.

(a) Local Health Boards are established by order under section 16BA of the National Health Service Act 1977 (c.49) - *see* the Local Health Boards (Establishment)(Wales) Order 2003 (S.I. 2003/148, W.18).

(b) S.I. 1996 No.146.

**Trosglwyddo cyflogeion gweddilliol i Fwrdd Iechyd Lleol Powys o dan y Cynllun Cyflogaeth Estynedig**

**5**. Gan fod yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo, caiff contract cyflogaeth rhwng cyflogai gweddilliol ac awdurdod iechyd Cymreig ei drin fel pe bai'n gontract cyflogaeth am gyfnod penodedig a i ddod i ben ar 31 Mawrth 2004 gafodd ei wneud yn wreiddiol rhwng y cyflogai gweddilliol a Bwrdd Iechyd Lleol Powys.

**Trosglwyddo cyflogeion Cynllun Cyflogaeth Estynedig o dan y Cynllun Cyflogaeth Estynedig**

**6**.-(1) Mae paragraff (2) yn gymwys i gyflogai Cynllun Cyflogaeth Estynedig na therfynwyd ei gontract cyflogaeth (boed wrth i rybudd ddod i ben, treigl amser neu fel arall).

(2) Yn ystod y cyfnod o ddeuddeg mis ar ôl y dyddiad trosglwyddo, caiff contract cyflogaeth rhwng cyflogai Cynllun Cyflogaeth Estynedig y mae paragraff (1) yn gymwys iddo a Bwrdd Iechyd Lleol Powys, os cafodd y cyflogai hwnnw gynnig cyflogaeth a'i derbyn -

(a) gan unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol (heblaw Bwrdd Iechyd Lleol Powys o dan y Cynllun Cyflogaeth Estynedig); neu

(b) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru,

ei drin fel pe bai wedi cael ei wneud yn wreiddiol rhwng cyflogai y Cynllun Cyflogaeth Estynedig a Bwrdd Iechyd Lleol o'r fath neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Diddymu Awdurdodau Iechyd Cymreig**

**7.** Gan fod yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo, diddymir pob un o'r awdurdodau iechyd Cymreig.

**Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau yr awdurdodau iechyd Cymreig**

**8**. Gan fod yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo, trosglwyddir unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau awdurdodau iechyd Cymreig na throsglwyddwyd i Fwrdd Iechyd Lleol yn rhinwedd Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2003(**a**) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Diddymiad canlyniadol Gorchymyn Sefydlu yr Awdurdodau Iechyd (Cymru) 1996**

**9**. Diddymir Gorchymyn Sefydlu yr Awdurdodau Iechyd (Cymru) 1996 gan fod yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo.

(a) O.S. 2003/473, Cy.63

**Transfer of residual employees to Powys Local Health Board under the Extended Employment Scheme**

**5**. With effect from the transfer date, a contract of employment between a residual employee of a Welsh health authority shall be treated as if it were a contract of employment for a fixed term made originally between the residual employee and the Powys Local Health Board.

**Transfer of EES employees under the Extended Employment Scheme**

**6**.-(1) Paragraph (2) applies to an EES employee whose contract of employment has not terminated (whether by expiry of notice, effluxion of time or otherwise).

(2) During the period of twelve months following the transfer date, a contract of employment between an EES employee to whom paragraph (1) applies and the Powys Local Health Board shall, if such employee has been offered and has accepted employment with -

(a) any Local Health Board (other than the Powys Local Health Board under the Extended Employment Scheme); or

(b) the National Assembly for Wales,

be treated as if it had originally been made between the EES employee and such Local Health Board or the National Assembly for Wales.

**Abolition of Welsh Health Authorities**

**7**. With effect from the transfer date, each of the Welsh health authorities is abolished.

**Transfer of property, rights and liabilities of Welsh health authorities**

**8**. With effect from the transfer date, any property, rights or liabilities of a Welsh health authority which are not transferred to a Local Health Board by virtue of the Local Health Boards (Transfer of Property, Rights and Liabilities) (Wales) Order 2003(**a**) shall be transferred to the National Assembly for Wales.

**Consequential revocation of the Health Authorities (Wales) Establishment Order 1996**

**9.** The Health Authorities (Wales) Establishment Order 1996 shall be revoked with effect from the transfer date.

(a) S.I. 2003/473, W.63.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998.

19 Mawrth 2003

19th March 2003

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

YR ATODLEN

Erthygl 2

Yr awdurdodau iechyd Cymreig y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddynt yw -

Bro Tâf

Dyfed Powys

Gwent

Morgannwg

North Wales Gogledd Cymru

SCHEDULE

Article 2

The Welsh health authorities to which this Order applies are -

Bro Tâf

Dyfed Powys

Gwent

Morgannwg

North Wales Gogledd Cymru

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 Rhif 813 (Cy.98)

# 2003 No. 813 (W.98)

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

Gorchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003

The Health Authorities (Transfer of Functions, Staff, Property, Rights and Liabilities and Abolition) (Wales) Order 2003

©® Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090700-0

9 780110 907000

**£2.00**

W63/4/03 ON